



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Aberaeron
Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2015

Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn ysgol gyfun, naturiol ddwyieithog, i ddisgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Lleolir yr ysgol yn nhref Aberaeron. Mae 614 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 141 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae 9.3% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.5%. Mae 0.4% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig Cymru

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae 32.7% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda 5.4% o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn sylweddol uwch na'r canrannau cenedlaethol.

Gofelir am saith disgybl gan yr awdurdod lleol.

Daw 34% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Fodd bynnag, mae 70% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2012. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Aberaeron yn 2014-2015 yw £4,886. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ceredigion yw £7,160 a'r lleiafswm yw £4,379. Mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn y pumed safle o'r chwe ysgol uwchradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Anfoddhaol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae cryfderau ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- tuedd o welliant yn y safonau yng nghyfnod allweddol 3;
- bron pob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais;
- lefelau presenoldeb wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf; ac
- arlwy addas o opsiynau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn anfoddhaol oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn gyson is na pherfformiad ysgolion tebyg, ac eithrio yn 2013;
- bod perfformiad bechgyn yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg lawer is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg;
- mewn ychydig o dan hanner y gwersi, nid yw disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl, yn gwneud digon o gynnydd;
- mae cynlluniau'r ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg yn aneglur;
- nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi datblygu digon er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm; a
- nid yw'r marcio mewn lleiafrif o bynciau yn cynnig digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu'n effeithiol gyda'r staff, rhieni a disgyblion;
- bod arweinyddiaeth wedi arwain at gynnydd mewn lleiafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4; a
- bod y corff llywodraethol yn rhoi cefnogaeth gadarn i'r ysgol ac yn ymwybodol o'r meysydd i'w gwella.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr canol yn canolbwyntio digon ar wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau yn eu hadrannau;
- mae anghysondebau yn natur amcanion rheoli perfformiad yn cyfyngu ar atebolrwydd;
- nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arfarniadau mewnol ac allanol i

gynllunio ar gyfer gwella; ac

- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd
- A3 Datblygu'r ddarpariaeth er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy effeithiol
- A4 Gwella a chysoni ansawdd yr addysgu, a sicrhau bod digon o her i ddisgyblion mwy abl
- A5 Cryfhau rôl arweinwyr canol gan sicrhau eu bod yn llwyr atebol am safonau ac ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau
- A6 Cryfhau trylwyredd y prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol a lefel ysgol-gyfan

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Anfoddhaol

Safonau: Anfoddhaol

Er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn mwyafrif o'r dangosyddion wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn parhau i fod yn is na pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad ym mhob un dangosydd islaw cyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol mewn llawer o'r dangosyddion yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol, ac eithrio 2013, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys 5 TGAU graddau A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg, a mathemateg wedi codi ychydig ers 2011. Fodd bynnag, ac eithrio 2013, lle roedd perfformiad yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, mae perfformiad yn y dangosydd hwn dros y blynyddoedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi cynyddu'n sylweddol. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi bod yn anghyson. Fodd bynnag, ac eithrio 2013, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymysg yr 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac yn is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi amrywio. Gwelwyd y cynnydd gorau ym mathemateg. Fodd bynnag, mae perfformiad Saesneg, gwyddoniaeth a Chymraeg wedi gostwng. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ym mhob un o'r pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae holl fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi cyrraedd y trothwy lefel 3. Yn ystod y cyfnod hwn mae sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach y chweched dosbarth wedi codi. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf.

Wedi Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd yn unigol ar lefel 5 neu'n uwch yn dangos cynnydd da. Yn gyffredinol, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch hefyd wedi gwella. Fodd bynnag, mae'r cymariaethau ag ysgolion tebyg yn llai cadarnhaol.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o ddangosyddion, yn enwedig yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o ddangosyddion gan fod merched yn tanberfformio yn ogystal â'r bechgyn.

Nid yw'n bosibl adnabod patrwm arwyddocaol o gynnydd ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim oherwydd y niferoedd cymharol fach o'r disgyblion hyn ym mhob blwyddyn. Yng nghyfnod allweddol 3, yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion mewn ystod o ddangosyddion yn gadarnhaol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r perfformiad yn amrywiol. Roedd yn dda yn 2013 ond wedi lleihau'n sylweddol yn 2014.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd boddhaol.

Mewn ychydig dros hanner y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Maent yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am destunau amrywiol ac yn gallu cymhwyso'u dysgu'n effeithiol i sefyllfaoedd newydd. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn gallu defnyddio gwybodaeth flaenorol i wneud cysylltiadau rhesymegol â thestunau a chysyniadau newydd. Fodd bynnag, yng ngweddill y gwersi, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol o fewn grwpiau neu barau. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyd-ddisgyblion ac yn barod i gynorthwyo'i gilydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn ddigon clir am eu rôl wrth weithio mewn grŵp ac yn gwneud defnydd aneffeithiol o'r amser.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon. Fodd bynnag, mewn ychydig o sefyllfaoedd mae cyfarwyddiadau'r athro yn rhy hir neu'n rhy gymhleth ac o ganlyniad nid yw'r disgyblion yn hollol glir am yr hyn sy'n ddisgwylidig. Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn barod i ateb cwestiynau ar lafar neu gynnig sylwadau ar lafar wrth arfarnu gwaith ei gilydd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r disgyblion sydd yn cynnig atebion estynedig ac yn cynnig esboniadau llawn wrth ateb cwestiynau. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion eirfa bynciol briodol ac maent yn gallu cyfeirio'n hyderus at dechnegau a therminoleg bynciol addas.

Mae medrau ysgrifenedig mwyafrif o'r disgyblion yn gadarn. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol elfennol mewn ysgrifennu mwyafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Mae gan leiafrif o ddisgyblion strategaethau effeithiol i wirio'i sillafu, er enghraifft trwy ddefnyddio geiriaduron, ac mae mwyafrif yn cywiro camgymeriadau sillafu yn dilyn arweiniad gan athrawon. Er bod llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ysgrifennu at ystod o wahanol bwrpasau ac yn glir am ofynion neu strwythur y ffurfiau hyn, mae ychydig o ymadroddion Saesneg yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar daflenni gwaith ac mae hyn yn cyfyngu'r cyfle iddynt ymarfer eu medrau ysgrifennu annibynnol.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn cymryd digon o falchder dros gyflwyniad eu gwaith ac mae llawysgrifen yn flêr.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn gadarn. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn hyderus wrth ddarllen testunau anllenyddol er mwyn cywain gwybodaeth. Maent yn gallu sgimio a sganio erthyglau, anodi testunau a threfnu syniadau'n briodol. Oherwydd geirfa gyfyng ychydig o ddisgyblion, maent yn betrusgar wrth ddarllen geirfa anghyfarwydd.

Mewn ystod briodol o bynciau, mae disgyblion yn ymarfer eu medrau rhifedd yn rheolaidd. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn llunio graffiau'n gywir ac yn dadansoddi gwybodaeth syml. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso ystod digon eang o fedrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae tua hanner o'r disgyblion yn cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn dilyn y llwybr Gymraeg yn deall yr iaith ond ddim yn hyderus wrth ymateb ar lafar.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o sut i gadw'n iach ac yn deal egwyddorion bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cymryd rhan frwd mewn gweithgareddau megis ymarferion ffitrwydd a chlwb gymnasteg ac athletau.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac, yn 2013-2014, roeddent yn uwch na disgwyliadau. Ers 2012, mae ffigyrau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae ffigyrau presenoldeb 2013-2014 yn gosod yr ysgol ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi codi ers 2010 ac mae'n well na chyfartaledd y teulu ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yn 2013-2014, roedd absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu ychydig.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais a'r rhan fwyaf yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn barod i weithio.

Mae aelodau'r cynghorau blwyddyn, y cyngor eco a'r cyngor ysgol yn mynegi barn yn briodol. Mae cyngor yr ysgol wedi dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol, er enghraifft y penderfyniad i brynu wal ddringo a gosod seddau o gwmpas tir yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor hefyd wedi dylanwadu'n addas ar gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da yn rheolaidd, er enghraifft trwy gynnal ffair Nadolig a threfnu boreau coffi. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau cymdeithasol da ac maent yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae arlwy addas o opsiynau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, sydd wedi cael effaith bositif ar berfformiad trothwy lefel 2 yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyflwyno'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn briodol i ddisgyblion y chweched dosbarth.

Darpara'r ysgol amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol buddiol, gan gynnwys ymweliadau â lleoliadau o ddiddordeb sy'n cynnwys galerïau, theatrau, amgueddfeydd a theithiau tramor.

Mae'r ysgol wedi cynnal awdit i adnabod cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o ddylanwad ar ystod y profiadau a datblygiad y medrau ar draws y pynciau. Yn ddiweddar, cyflwynwyd nifer o strategaethau addas er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni ymyrraeth sy'n rhoi cymorth priodol i ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan.

Mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth briodol o'r dimensiwn Cymreig trwy gynlluniau gwaith, er enghraifft, astudio agweddau o hanes Cymru a daearyddiaeth leol. Fodd bynnag, mae cynlluniau'r ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg yn aneglur. Nid yw'r cynllunio'n ddigon manwl i sicrhau bod lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer hybu dinasyddiaeth fyd-eang sydd yn cynnwys datblygu cysylltiadau gwerthfawr gydag ysgolion ym Malawi a Gambia. Mae'r cynllunio'n drwyadl i sicrhau ymwybyddiaeth dda o faterion ynghylch cynaliadwyedd. Mae pwyllgor eco'r ysgol yn chwarae rhan allweddol yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac mae'r ysgol wedi ennill y Gwobr y Faner Werdd am y trydydd tro.

Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol dda iawn. Mae ganddynt berthynas waith gadarn gyda'r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad a threfnu gweithgareddau grŵp a phâr yn effeithiol. Mae llawer o athrawon yn modelu iaith yn fedrus.

Mae mwyafrif o athrawon yn cynllunio'n briodol gan wneud defnydd pwrpasol o wybodaeth am anghenion dysgu disgyblion neu ddata am gyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mewn lleiafrif o achlysuron, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus a darparu deunyddiau addas i gefnogi'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymestyn y disgyblion mwy abl.

Mewn tua hanner o'r gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn mae disgyblion ar draws yr ystod gallu yn medru cyflawni. Yn y gwersi hyn, mae'r cwestiynu'n effeithiol i brocio ac ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Mae amseru effeithiol a chyflymder addas i'r wers. Mae'r tasgau'n gynyddol heriol ac adnoddau yn ysgogol ac o ansawdd uchel, sy'n cynnal diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, nid yw tua hanner o'r gwersi yn sicrhau bod disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, mae tempo'r gwersi'n rhy araf ac mae gormod o amser yn cael ei dreulio ar dasgau nad ydynt yn cynnig digon o her. Nid yw'r adnoddau wedi eu haddasu ddigon i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Hefyd yn y gwersi hyn, nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ddatblygu ystod briodol o uwch fedrau llythrennedd neu rhifedd.

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn cynnig adborth llafar rheolaidd a phriodol i ddisgyblion. Maent yn marcio llyfrau'n gyson ac mae llawer ohonynt yn cynnig sylwadau defnyddiol a thargedau pwrpasol i'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw'r sylwadau'n ddigon penodol i fod o ddefnydd i'r disgyblion ac nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu ar y cyngor a roddir iddynt.

Mae llawer o athrawon yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol system briodol i dracio cynnydd disgyblion ac eleni maent wedi cynyddu amlder y cyfnodau casglu data perfformiad. Yn 2013 i 2014, nid oedd y gweithdrefnau dilynol yn ddigon llwyddiannus i gynnal safonau yn y pynciau craidd. Mae'r gweithdrefnau newydd yn galluogi'r ysgol i ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth i herio a chefnogi disgyblion sydd yn tanberfformio yn gynnar yn y flwyddyn.

Derbynia rhieni wybodaeth ddefnyddiol ynghylch cynnydd eu plant mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau interim a blynyddol. Mae'r adroddiadau blynyddol yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn cynnwys lle arnynt ar gyfer sylwadau rhieni. Mae ychydig o anghysondeb o ran defnydd athrawon o dargedau ac yn ansawdd eu sylwadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ac arweiniad gwerthfawr er mwyn hybu iechyd a lles y disgyblion. Trwy'r sesiynau 'munud i feddwl' a gweithgareddau megis y sioe gerdd a'r Eisteddfod, mae'r ysgol yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion, gyda phwyslais priodol ar sicrhau amgylchedd diogel. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o wasanaethau allanol arbenigol i gynnig cymorth priodol i ddisgyblion yn ôl yr angen.

Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo presenoldeb yn effeithiol.

Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys targedau clir a phenodol. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a strategaethau pwrpasol i staff ar sut i gefnogi'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw digon o athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o wybodaeth am y disgyblion hyn er mwyn cyfarfod â'u hanghenion yn y gwersi.

Mae darpariaeth dda ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y chweched dosbarth, ynghyd â disgyblion Canolfan y Môr.

Yn gyffredinol, mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fe dynnwyd sylw'r ysgol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol a chynhwysol. Mae wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau nad yw disgyblion a darpar ddisgyblion ag anableddau yn dioddef triniaeth lai ffafriol. Mae'r ysgol yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio unrhyw stereoteipio'n effeithiol trwy amryw o weithgareddau megis sesiynau tiwtorial, gwasanaethau a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae adeiladau a thir yr ysgol mewn cyflwr priodol. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n addas mewn adnoddau ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y maes hwn. Mae'r ystafelloedd dysgu a'r coridorau yn cefnogi'r dysgu'n briodol gydag arddangosfeydd lliwgar a deniadol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Ers penodiad y pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn 2012, mae cynhwysedd yr uwch dîm arwain i wella safonau wedi cynyddu. Mae'r pennaeth wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir, sef sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Gyda chefnogaeth gadarn aelodau eraill yr uwch dim, mae'r pennaeth wedi mireinio'r strwythur arwain a rheoli fel bod llinellau cyfathrebu clir. Mae'r newidiadau hyn wedi dechrau arwain at ddiwylliant cynyddol o ddisgwyliadau uchel ar draws yr ysgol ac ethos o waith tîm agos a chynhaliol.

O ganlyniad, mae arweinyddiaeth wedi sicrhau cynnydd yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3, lleiafrif o dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 a chyfraddau phresenoldeb. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4 sydd yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg wedi bod yn anwastad.

Mae gan yr ysgol galendr gytûn o gyfarfodydd. Mae cofnodion cyfarfodydd yr uwch dîm arwain yn canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau'r ysgol ac mae dilyniant clir i lawer o'r pwyntiau gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â gwella'r addysgu yn ddigon aml ac nid oes dilyniant ffurfiol i ychydig o faterion pwysig sydd yn codi.

Mae cyfarfodydd defnyddiol rhwng arweinwyr cyswllt a rheolwyr canol i olrhain perfformiad grwpiau o ddisgyblion yn ôl eu targedau a threfnu ymyraethau priodol i fynd i'r afael â thangyflawni. Fodd bynnag, yn y flwyddyn academaidd 2013 – 2014, nid oedd y cyfarfodydd hyn wedi digwydd yn ddigon aml i sicrhau ffocws amserol ar gyflawniad y disgyblion. Mae cofnodion cyfarfodydd yr arweinwyr canol yn cynnwys eitemau parhaol priodol ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio digon ar wella ansawdd yr addysgu. Yn ogystal, nid oes pwyntiau gweithredu'n codi o'r cyfarfodydd hyn. Mae'r diffygion hyn yn cyfyngu ar atebolrwydd a gallu'r arweinwyr canol i wella perfformiad yn eu hadrannau.

Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad addas ac mae uwch arweinwyr wedi herio achosion o danberfformio ymhlith y staff yn briodol. Fodd bynnag, nid yw cwmplas y targedau rheoli perfformiad yn ddigon eang gan nid yw llawer ohonynt yn canolbwyntio ar brif flaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth wedi ei drawsnewid er mwyn cynnig arlwy fwy addas i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn dechrau cymryd camau dilys i ymateb i ddatblygiadau yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cefnogaeth gadarn i'r ysgol yn ogystal â'i herio i wella meysydd pwysig. Mae gan aelodau penodol gysylltiadau buddiol ag adrannau. O ganlyniad i'r rhain a chyflwyniadau ar ddata perfformiad gan yr uwch dîm arwain, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd pwysicaf i'w gwella.

Gwella ansawdd: Anfoddhaol

Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i adolygu perfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Enghraifft o hyn yw'r rhaglen ddefnyddiol ar gyfer adolygu perfformiad adrannau, lle mae'r uwch dim arwain yn arfarnu gwersi, dadansoddi data, craffu ar lyfrau a chasglu barn disgyblion. Mae'r adolygiadau hyn yn darparu gwybodaeth addas am berfformiad adrannau. Fodd bynnag, mae gan arweinwyr ar bob lefel argraff rhy hael o agweddau pwysig fel ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn barnu gwaith yr ysgol yn erbyn y fframwaith arolygu cyffredin. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae lleiafrif o'r sylwadau'n rhy hael neu'n anelwig. Mae'r mwyafrif o arweinwyr yn adnabod llawer o'r meysydd pwysig i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o ffocws ar wella ansawdd a chysondeb yr addysgu a chodi safonau. Dadansoddir perfformiad yr ysgol yn fanwl yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol ond nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhoi digon o ystyriaeth i gymariaethau ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn derbyn adroddiadau defnyddiol gan asiantaethau allanol ar agweddau pwysig fel llythrennedd a rhifedd ond ni wneir digon o ddefnydd o argymhellion yr adroddiadau hyn i flaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae trefn effeithiol i ganfod llais y dysgwyr yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi casglu barn rhieni a gofawyr am ansawdd y ddarpariaeth yn y gorffennol ond nid yw hyn wedi ei ddatblygu yn arfer rheolaidd.

Mae llawer o'r rheolwyr canol yn dadansoddi perfformiad o fewn eu hadrannau yn briodol. Mae'r calendr monitro ac arfarnu yn cynnwys cyfleoedd addas i'r adrannau arfarnu gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r argymhellion sy'n deillio o'r prosesau hunanarfarnu yn ddigon grymus a thrylwyr ac nid ydynt yn mynd i'r afael â gwendidau pwysig sydd wedi eu hadnabod.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau sy'n deillio'n briodol o hunan arfarniad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu yn ddigon manwl ac nid oes targedau mesuradwy addas ar gyfer llawer o'r blaenoriaethau.

Er bod y cynlluniau datblygu ysgol a chynlluniau adrannol yn adnabod bod angen gwella ansawdd yr addysgu a dysgu er mwyn cwrdd ag anghenion pob disgybl, nid oes ffocws manwl ar y meysydd hyn ac mae anghysondeb yn y gweithredu. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn rhy arwynebol.

Nid yw'r cynlluniau gwella ysgol gyfan nac adrannol yn nodi cerrig milltir penodol ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw effaith y cynlluniau'n cael ei hadolygu yn ddigon rheolaidd a thrylwyr.

Er bod yr ysgol wedi ymateb i bob un o argymhellion yr arolygiad diwethaf, nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr argymhellion pwysig o wella'r addysgu a chryfhau'r cynllunio ar gyfer gwella.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau llwyddiannus sydd yn cyfoethogi ac ehangu profiadau'r disgyblion.

Mae'r berthynas agos a chynhaliol gyda rhieni yn cael effaith fuddiol ar les y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu digidol yn effeithiol i sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o weithgareddau, gweithdrefnau a llwyddiannau'r ysgol.

Mae trefniadau pontio buddiol gyda'i hysgolion partner yn darparu gweithgareddau buddiol i'r disgyblion, er enghraifft creu 'Pasbort Gwyddoniaeth' a diwrnodau pontio Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymgartrefu'n llwyddiannus yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth fugeiliol yn helpu'r ysgol sicrhau cymorth buddiol i'r disgyblion mwyaf bregus a hwyrddyfodiaid i'r ysgol.

Mae partneriaethau gwerthfawr o fewn y 'Bwrdd Prosiect' yn llwyddo i ehangu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 14-19 oed. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl i sicrhau ansawdd y cyrsiau sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth.

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned drwy weithio'n agos gyda chyflogwyr lleol i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr i'r disgyblion. Mae partneriaethau â Phrifysgol Aberystwyth yn darparu profiadau buddiol i'r staff a disgyblion.

Rheoli adnoddau: Anfoddhaol

Mae gan yr ysgol staff â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae wedi sefydlu gweithgorau ar gyfer gwella perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae eu heffaith ar wella safonau yn anghyson. Mae'r staff yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu'n broffesiynol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau addysgu.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn briodol. O ganlyniad, mae 'Hafan' yr ysgol yn llwyddo i roi cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion sydd o dan anfantais. Mae hyn wedi cael effaith gadarn ar bresenoldeb a chyfranogiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Rheolir cyllideb yr ysgol yn ofalus gan y pennaeth a'r swyddog gweinyddol. Mae monitro, cynllunio a rheoli gofalus wedi arwain at sefyllfa ariannol iach. Caiff y llywodraethwyr fewnbwn perthnasol i sicrhau gwariant ar flaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus o fewn 'Bwrdd Prosiect 14-19' ac, o ganlyniad, mae'r chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Yng ngoleuni'r safonau anfoddhaol, cynigia'r ysgol werth anfoddhaol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Ac eithrio 2014, mae perfformiad wedi bod yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Ers 2013, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Dros yr un cyfnod, bu ychydig o gynnydd yn y pynciau craidd yn unigol. Mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg yn ystod yr un cyfnod. Yn 2014, roedd perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu wedi dwy flynedd o fod yn is na'r teulu. Fodd bynnag, mae perfformiad ers 2013 yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ychydig dros y blynyddoedd diwethaf ond wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Eleni, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi cynyddu ond wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Ers 2012, mae wedi bod ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn 2014 yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn mwyafrif o'r dangosyddion wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn parhau i fod yn is na pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2014, mae perfformiad ym mhob un dangosydd islaw cyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol mewn llawer o'r dangosyddion yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys 5 TGAU graddau A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi codi ychydig ers 2011. Fodd bynnag yn 2014, fe wnaeth perfformiad ddisgyn o gymharu â'r hyn yn 2013. Roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn ar ei uchaf yn 2013, gyda'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, ac uwchlaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, ac eithrio 2013, mae perfformiad yn y dangosydd hwn dros y blynyddoedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi bod yn anghyson. Mae perfformiad 2014 ychydig yn well nag yn 2011. Gwelwyd y perfformiad gorau yn 2013, gyda'r ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac uwchlaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, ac eithrio 2013, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymysg y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac yn is na chyfartaledd y teulu.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi aros yn gyson ers 2012. Ers 2013, mae perfformiad yn y 50% is o ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi gwella'n sylweddol ers 2011 ond wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu dros y cyfnod hwn. Mae'r perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi lleihau ers 2011. Mae perfformiad wedi bod yn y 50% is o ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn ac eithrio 2013. Yn 2014, mae perfformiad mewn Cymraeg yn y 25% isaf o ysgolion tebyg wedi cyfnod hir yn y 50% uwch. Yn 2012 a 2014, roedd perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn mathemateg yn wedi cynyddu ers 2011, fodd bynnag, ac eithrio 2013, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu.

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae holl fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi cyrraedd y trothwy lefel 3. Yn ystod y cyfnod hwn mae sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach y chweched dosbarth wedi codi. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf.

Wedi Blwyddyn 11 mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ceir bwllch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o ddangosyddion, yn enwedig y dangosyddion sy'n

cynnwys Cymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid oes bwllch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o ddangosyddion gan fod merched yn tanberfformio yn ogystal â'r bechgyn.

Nid yw'n bosibl adnabod patrwm arwyddocaol o gynnydd ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim oherwydd y niferoedd cymharol fach o'r disgyblion hyn ym mhob blwyddyn. Yng nghyfnod allweddol 3, yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion mewn ystod o ddangosyddion yn gadarnhaol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4 mae'r perfformiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Wedi tuedd ar ei lawr yn 2013, roedd canran y grŵp hwn o ddisgyblion a oedd wedi ennill y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol yn 2013. Fodd bynnag, mae data heb ei wirio ar gyfer 2014 yn nodi bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi lleihau'n sylweddol. Roedd patrwm tebyg yn y trothwy lefel 2 a'r dangosydd pwnc craidd. Hyd at 2013, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi cynyddu'n dda. Yn ystod 2013, roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 ar gyfer Saesneg a Chymraeg yn dda iawn ac wedi cynyddu'n sylweddol ar berfformiad 2012. Fodd bynnag, mae data heb ei wirio ar gyfer 2014 yn nodi bod gostyngiad sylweddol ym mherfformiad disgyblion yn y dangosydd hwn. Roedd darlun tebyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth hefyd.

Yn gyffredinol, ac eithrio 2013, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg uwchradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	155	81 52%	70 45%	3 2%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		44%	52%	3%	1%	
The school deals well with any bullying	155	51 33%	81 52%	18 12%	5 3%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		26%	58%	14%	2%	
I have someone to talk to if I am worried	155	58 37%	81 52%	14 9%	2 1%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		38%	52%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	155	29 19%	95 61%	27 17%	4 3%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	18%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	155	67 43%	62 40%	20 13%	6 4%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	9%	2%	
I am doing well at school	155	51 33%	90 58%	13 8%	1 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	155	67 43%	75 48%	6 4%	7 5%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	155	27 17%	83 54%	31 20%	14 9%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	154	76 49%	66 43%	9 6%	3 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	155	17 11%	98 63%	33 21%	7 5%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	

	Number of responses Nifer o ymatebion		Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
Staff treat all pupils fairly and with respect	154		49 32%	81 53%	16 10%	8 5%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
			29%	50%	17%	4%	
The school listens to our views and makes changes we suggest	154		31 20%	79 51%	33 21%	11 7%	Mae'r ysgol yn gwrandao ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
			16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	153		57 37%	83 54%	12 8%	1 1%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosaf fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
			34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	155		58 37%	78 50%	16 10%	3 2%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
			36%	54%	9%	1%	
The staff respect me and my background	155		59 38%	83 54%	7 5%	6 4%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
			37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	155		55 35%	84 54%	11 7%	5 3%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
			36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	67		23 34%	30 45%	9 13%	5 7%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
			28%	51%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	40		6 15%	21 52%	9 22%	4 10%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
			27%	50%	16%	6%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	166	103 62%	60 36%	2 1%	0 0%	1	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	51%	4%	1%		
My child likes this school.	167	102 61%	63 38%	2 1%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		46%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	166	107 64%	56 34%	2 1%	0 0%	1	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		49%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	167	91 54%	68 41%	6 4%	1 1%	1	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		44%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	167	64 38%	76 46%	8 5%	1 1%	18	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		22%	54%	11%	3%		
Teaching is good.	167	77 46%	78 47%	8 5%	0 0%	4	Mae'r addysgu yn dda.
		33%	57%	5%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	167	94 56%	69 41%	0 0%	0 0%	4	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		50%	46%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	167	76 46%	81 49%	6 4%	0 0%	4	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	54%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	167	79 47%	64 38%	7 4%	3 2%	14	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	48%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	166	87 52%	60 36%	8 5%	0 0%	11	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	53%	7%	1%		
My child is safe at school.	166	93 56%	67 40%	2 1%	0 0%	4	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		41%	52%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	160	74 46%	60 38%	7 4%	2 1%	17	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	166	61 37%	85 51%	11 7%	3 2%	6	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	167	82 49%	72 43%	9 5%	0 0%	4	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	167	56 34%	89 53%	7 4%	1 1%	14	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	50%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	166	75 45%	81 49%	3 2%	1 1%	6	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		35%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	159	47 30%	76 48%	6 4%	4 3%	26	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	165	72 44%	82 50%	8 5%	0 0%	3	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	50%	9%	2%		
The school is well run.	165	94 57%	63 38%	3 2%	0 0%	5	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	49%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Catherine Evans	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Meinir Rees	Arolygydd Tîm
Ceri Jones	Arolygydd Tîm
Vaughan Williams	Arolygydd Tîm
David Jenkins	Arolygydd Lleyg
Trystan Edwards	Arolygydd Cymheiriaid
Owain Jones	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys

	<p>ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---